**Rydym yn gweithio gydag ymgynghorwyr ynni sy'n gwirio eich biliau ac yn symleiddio eich proses weinyddol yn ogystal â rhoi dyfynbrisiau ynni nad oes unrhyw orfodaeth arnoch i'w derbyn ond a allai arbed arian ichi.**

# Gweithredu ar ynni

Mewn hinsawdd lle mae biliau ynni yn codi o hyd ac o hyd a lle mae mwy a mwy o alw am weithredu mewn ffordd sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd, mae Grŵp Gweithredu ar Ynni Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru (CYD), sy'n fudiad di-elw, yn un trywydd y gall amgueddfeydd ei archwilio. Mae gan Grŵp Prynu Ynni y mudiad brofiad o weithio gyda nifer o fudiadau treftadaeth, gan gynnwys The Shakespeare Birthplace Trust, sydd wedi cael budd o'r dyfynbrisiau hynod o gystadleuol yr oedd gan y Grŵp i'w cynnig.

Mae'r Grŵp Prynu Ynni wedi cyfuno'r ynni a ddefnyddir gan dros 120 o sefydliadau, gan wneud cyfanswm o 39 miliwn KWH o ynni. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu trafod telerau gyda chyflenwyr ynni ar raddfa ehangach, gan ostwng prisiau ynni i'r eithaf ar gyfer aelodau'r grŵp ynni, yn enwedig yng nghyd-destun cynnydd mewn prisiau.

Yn ogystal, gall y Grŵp Ynni gynnig cyngor ar gamau y gellir eu cymryd i arbed ynni, gan gynnwys goleuadau LED, systemau optimeiddio foltedd a systemau rheoli boeleri.

Rhoddwyd dyfynbrisiau am ddim, oedd yn cynnwys ffioedd, i'r Shakespeare Birthplace Trust heb unrhyw orfodaeth o ran eu derbyn, a derbyniodd yr Ymddiriedolaeth y rhain am y tair blynedd ddilynol. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw gynnydd a geir mewn prisiau yn ystod y cyfnod hwn yn effeithio arni. Arweiniodd hyn at arbedion sylweddol (gweler uchod).

## Mesuryddion deallus

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gwerthuso ystod eang o fesuryddion deallus ac rydym wedi dod ar draws nifer o systemau, pob un ohonynt yn cael canlyniadau gwahanol. Mae rhai yn cyflawni llawer, ond mae eraill yn cyflawni ychydig iawn ar wahân i alluogi cyflenwyr i leihau eu costau eu hunain.

| | Ffi yr Uned o'r blaen | Ffi yr Uned gyda'r Grŵp Prynu Ynni |
|---|---|---|
| Trydan | 16.84c( fesul kWh) | 11.004( fesul kWh) |
| Nwy | 5.75. ( fesul kWh) | 2.898( fesul kWh) |

| | 12 mis | 24 mis | 36 mis |
|---|---|---|---|
| **Dyfynbrisiau Trydan cyfartalog (pp/kWh)** | **10.95** | **11.37** | **11.78** |
| **Dyfynbrisiau Nwy cyfartalog (pp/kWh)** | **3.45** | **3.35** | **3.46** |
| **% y cleientiaid a dderbyniodd hyd y contractau** | **7%** | **11%** | **82%** |

**Dyfynbrisiau cyfartalog llwyddiannus a negodwyd gennym. Mae'r cyfraddau yn cynnwys ffioedd Gosod a ffi sefydlog ac maent yn gallu amrywio yn ôl nifer o ffactorau, gan gynnwys lleoliad, cyfraddau yn ystod y dydd/nos a chyfanswm defnydd.**

Hoffem wneud cynnig i amgueddfeydd annibynnol sy'n awyddus i leihau eu heffaith ar Newid yn yr Hinsawdd Fyd-eang, sef porth rheoli ynni cynhwysfawr lle gall pob amgueddfa unigol gyrchu ei data ei hun a chynhyrchu amrywiaeth eang o adroddiadau ynni.

Byddai'r system hon hefyd yn golygu bod amgueddfeydd sydd ddim am osod mesuryddion deallus yn gallu ychwanegu eu data â llaw yn rheolaidd.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag energyactiongroup@dtawales.org.uk neu ffoniwch 02920 190260. I gael gwybod mwy am brosiect Gorllewin Canolbarth Lloegr, ewch i http://greeningmuseums.wordpress.com/

*Mae CYD yn gweithredu ledled y wlad yng Nghymru a Lloegr; y Scottish Development Trust yw'r corff cyfatebol yn yr Alban.

energy action group
grŵp gweithredu ynni